# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 11 Ebrill 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Arwel Roberts (Is-Gadeirydd) a/ac Gareth Sandilands

Sylwedyddion – Y Cynghorwyr Ray Bartley, Jason McLellan a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW), Rheolwr Awdit (BS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Arloygwr TCC (GS), Swyddog Gwelliant Corfforaethol (NK), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Rebecca Maxwell.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad personol na rhagfarnllyd gan unrhyw un.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim mater brys wedi'i godi.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2013.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies bod camau gweithredu yn cael eu hychwanegu at y cofnodion lle bo'n briodol er hwylustod cyfeirio. Cynigwyd a chytunwyd y dylid ychwanegu troednodyn lle bo'n briodol.

***[SP i weithredu]***

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2013 fel cofnod cywir.*

## 5 CYNLLUN CORFFORAETHOL ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL: CHWARTER 3 2012/13

[Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi am Fesurau Perfformiad y Cynllun Corfforaethol cyn y cyfarfod ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor, er mwyn rhoi cymorth gydag archwilio'r eitem hon]

Cyflwynodd y Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (CIM) adroddiad (wedi'i anfon yn flaenorol) yn cyflwyno Adroddiad Chwarterol y Cynllun Corfforaethol 2012-2017. Diben yr adroddiad oedd i'r cyngor ddeall cynnydd eu cyfraniad i weithrediad canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol. Mae adroddiadau rheolaidd yn ofyniad monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu eu dyletswydd i wella.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cyfarfod wedi'i gynnal yn ddiweddar rhyngddo ef, yr Is-Gadeirydd a'r CIM i ddarllen yr adroddiad cyn y cyfarfod.

Yn y Cynllun, mae pob dangosydd a mesur perfformiad wedi derbyn statws lliw oedd yn disgrifio'r sefyllfa gyfredol. Roedd gan bob canlyniad "weithgareddau gwelliant" sef prosiectau a gweithgareddau wedi'u llunio i gyfrannu at ddarparu'r canlyniad. Roedd y rhain yn cael eu monitro drwy ddarparu "hyder yn y ddarpariaeth". Defnyddiwyd yr un pedwar lliw ar gyfer Statws Hyder yn y Ddarpariaeth.

Roedd yr adroddiad yn amlygu meysydd oedd yn achos pryder i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

4.1.1- ni wnaed cynnydd i ffurfioli cynlluniau i ostwng ymyl palmentydd ac felly fe'i hamlygwyd yn "goch" (blaenoriaeth gwelliant). Cytunwyd yn y Cyngor i weithredu gwaith i'w gwblhau ble y bo angen gostwng ymyl palmentydd a pheidio ag oedi. Bydd gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol gyflwyno adroddiad cynnydd i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiad gostwng ymyl palmentydd.

4.1.2 – amlygwyd canran y disgyblion sy'n gadael ysgolion heb gymhwyster cymeradwy yn "goch". Roedd angen ymdrech barhaus gan y gwasanaeth i wella hyn i statws "derbyniol".

4.1.3 - amlygwyd rhybuddion cosb penodedig am faw ci yn "goch". Codwyd y mater nad oedd rhybuddion cosb penodedig yn cael eu gweithredu drwy'r sir gyfan. Argymhellwyd y dylid gweithredu rhybuddion cosb penodedig drwy'r sir gyfan.

4.1.4 – amlygwyd canran y cyfarfodydd cychwynnol grwpiau craidd oedd yn cael eu cynnal o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd amddiffyn plant yn "goch" hefyd. Roedd yn rhaid gwella perfformiad tua 10% er mwyn sicrhau statws "derbyniol". Argymhellwyd y dylid gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Plant ddarparu adroddiad cynnydd i aelodau'r Pwyllgorau Archwilio Perfformiad a Phartneriaethau mewn perthynas â chyfarfodydd cychwynnol grwpiau craidd oedd yn cael eu cynnal o fewn 10 diwrnod i gynhadledd gyntaf amddiffyn plant.

4.1.5 - Amlygwyd penderfyniad amserol ceisiadau cynllunio perchennog tŷ yn "goch". Roedd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead, wrthi'n asesu newidiadau i'r Pwyllgor Cynllunio mewn modd y byddai'n gwella'r penderfyniadau.

Nodwyd pwyntiau 4.1.6 a 4.1.7.

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts na all gefnogi'r adroddiad hwn gan ei fod yn teimlo nad oedd y broses o gasglu a gwerthuso gwybodaeth yn adlewyrchiad cywir o'r gwir berfformiad.

Eglurodd y CIM bod y gwerthusiadau ar gyfer y dangoswyr a'r mesurau yn gadarn. Roedd y materion a godwyd gan y Cynghorydd Hilditch Roberts yn cynnwys sut y cai gweithgareddau eu monitro a'u hasesu ac efallai nad yw'r gwerthusiadau yn yr adroddiad yn dangos bod y prosiect wedi'i gwblhau ond yn asesu a oedd y gweithgareddau yn cael eu gweithredu ar amser ai peidio. Roedd cynnydd y gweithgareddau yn cael eu gwerthuso gan y swyddog(ion) oedd yn gyfrifol am y gweithgaredd. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid adolygu'r broses er mwyn cynyddu tryloywder, dilysrwydd a thystiolaeth yr Adroddiadau Diweddaru Chwarterol.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai person cyswllt arweiniol y Pwyllgor ddefnyddio eu rôl i gwestiynu a herio'r gwasanaethau am unrhyw faes neu faterion oedd yn achosi pryder o ran perfformiad. Cytunodd y Cadeirydd roi cymorth lle bo'n briodol.

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Y dylai'r Pwyllgor ofyn i'r Cabinet a'r Swyddogion Gwelliant Corfforaethol adolygu'r broses monitro ac asesu statws cynnydd gweithgareddau (sy'n dibynnu ar werthusiad swyddog(ion) sy'n gyfrifol am y gweithgareddau) ac ystyried faint o wybodaeth sy'n cael ei darparu am y canlyniadau er mwyn cynyddu tryloywder, dilysrwydd a thystiolaeth yr adroddiadau diweddaru chwarterol.*

*(ii) Mae'r Pwyllgor yn cytuno, gan fod aelodau Archwilio Perfformiad wedi'u henwebu fel aelodau cyswllt arweiniol y gwasanaethau unigol, dylai'r aelodau cyswllt arweiniol ddefnyddio'r rôl i gwestiynu a herio'r gwasanaethau am unrhyw feysydd neu faterion oedd yn achosi pryder o ran perfformiad. Y Cadeirydd i roi cymorth lle bo'n briodol.*

*(iii) Bydd gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol gyflwyno adroddiad cynnydd i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiad gostwng ymyl palmentydd.*

*(iv) Argymhellwyd y dylid gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Plant ddarparu adroddiad cynnydd i aelodau Pwyllgorau Archwilio Perfformiad a Phartneriaethau mewn perthynas â chyfarfodydd cychwynnol grwpiau craidd oedd yn cael eu cynnal o fewn 10 diwrnod i gynhadledd gyntaf amddiffyn plant.*

***[ RhE i ddilyn i fyny yr uchod ]***

**6 ADOLYGIAD O'R BROSES HERIO GWASANAETH**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (CIM) adroddiad (wedi'i anfon yn flaenorol) yn cyflwyno Cynnig Drafft ar gyfer Gwella Proses Herio'r Gwasanaeth.

Mae prosesau Herio'r Gwasanaeth newydd wedi'u trafod gan CET ( Tîm Gweithredu Corfforaethol) a'r SLT (Uwch Dîm Arweinyddiaeth). Gwnaed cyflwyniad cyn Briffio'r Cyngor.

Byddai'r cynnig newydd yn broses blynyddol manwl. Cynigwyd y dylai'r Prif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau Arweiniol a'r Aelodau sy'n cynrychioli Archwilio fynychu bob Panel Asesu Herio Perfformiad y Gwasanaeth. Bydd cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfranogi hefyd. Bydd y broses newydd yn seiliedig ar hunanwerthusiad. Byddai Herio'r Gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan Aelodau'r Tîm Gwelliant Corfforaethol.

Roedd y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

- Dyletswyddau a Chyfrifoldebau
- Dogfennau i gefnogi hunanasesiad y gwasanaeth
- Amserlen y broses ac
- Amserlen y cyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau'n derbyn ac yn cymeradwyo'r cynigion drafft ar gyfer proses newydd Herio'r Gwasanaeth, a byddai'n cynnwys:*

*(i) Adolygiad manwl gan ganolbwyntio o'r newydd ar hunanwerthuso.*
*(ii) Rhaglen flynyddol yn hytrach na dwywaith y flwyddyn gyda mwy o gysylltiadau hyblyg gyda phroses cynllunio cyllideb a busnes.*
*(iii) Datblygu proses newydd ar wahân er mwyn cytuno ar effeithlonrwydd.*

***[TW i nodi'r argymhelliad uchod]***

**Ar y pwynt hwn (11.20 am) cafwyd toriad am 5 munud**

**Ailddechreuwyd y cyfarfod am 11:25am.**

## 7 DARPARIAETH TCC YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PC&GC) adroddiad (wedi'i anfon yn flaenorol) yn cyflwyno gwybodaeth am weithrediad TCC y Cyngor a'i bartneriaeth mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru.

Cyflwynodd y PC&GC, Graham Smith, Goruchwylydd TCC (TCC:G) Mae ystafell reoli TCC wedi'i lleoli yn Swyddfa Heddlu'r Rhyl.

Mae'r Cyngor yn defnyddio darpariaeth TCC mewn mannau cyhoeddus fel rhan o gyfraniad Sir Ddinbych i weithgareddau o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych yn uchel ei barch gan

Heddlu Gogledd Cymru am ei fod yn darparu gwasanaeth ardderchog ac angenrheidiol.

Mae Swyddogion y Cyngor yn rhedeg ystafell reoli’r TCC, gan weithio sifft i ddarparu gwasanaeth 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae 10 o staff yn yr Ystafell Reoli, gydag 1 Goruchwylydd TCC llawn amser, 5 gweithredwyr TCC llawn amser a 4 rhan-amser. Gadawodd 2 weithredwr TCC yn 2012 ac nid yw eu swyddi wedi’u llenwi gan fod angen arbed tua £113,000 erbyn 2014/15.

Mae 58 camera yn y Rhyl, 18 camera ym Mhrestatyn a 4 camera yn Rhuddlan.

Mae’r ystafell reoli yn gallu defnyddio TCC yn Lon Parcwr, Rhuthun, Depo Priffyrdd, Depo Parc Cinmel a Chanolfan Ailgylchu Marsh Road y Rhyl, yn ogystal â 4 o gamerâu allanol ysgolion.

Mae Ystafell Reoli TCC yn gallu cysylltu i weld system TCC Cyngor y Dref yn Llangollen hefyd. Mae gan Gyngor Tref Dinbych system TCC hefyd.

Mae gan y tîm 6 camera TCC Adleoli sydd yn gallu anfon lluniau o safon cyfyngedig yn ôl i’r ystafell reoli drwy donnau awyr. Mae dyddiad adnewyddu’r 6 camera TCC Adleoli yn y chwe mis nesaf. Mae’r rheolwyr wedi penderfynu peidio â’u hadnewyddu ac annog adrannau’r Cyngor a’r asiantaethau allanol i wneud trefniadau eu hunain ar gyfer TCC Adleoli gydag Ystafell Reoli TCC yn fodlon derbyn y lluniau a’u monitro am bris addas.

Roedd nifer o droseddau wedi’u recordio gan TCC yn ystod 2012. Cytunodd y PC&GC anfon e-bost yn cynnwys manylion y digwyddiadau i holl aelodau'r Pwyllgor er diben eglurder.

Mae Adran TCC hefyd yn darparu gwasanaeth eilaidd ar gyfer y Cyngor drwy fod yn Ganolfan Gyswllt Gwasanaeth Cwsmer y tu hwnt i oriau gwasanaeth (h.y. prif bwynt cyswllt y Cyngor ar ôl 6pm, yn ystod penwythnosau a gwyliau cyhoeddus),

Mae'r ffaith mai dim ond 10 aelod o staff sy'n cael eu cyflogi gan yr uned wedi arwain at broblemau yn ystod absenoldebau salwch a gwyliau. Mae’r goblygiadau yn, camerâu nid oedd yn cael eu monitor ar gyfer nifer o gyfnodau dros dro byr, ond I gyd yn cofnodi ar y chwith, a’r trefniadau yn eu lle I ganiatáu y tu allan I oriau galwadau ffôn yn ystod y cyfnodau hyn gael eu trosglwyddo ddi-dor I gyfleuster drydydd parti cyn-cymeradwy yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Crybwyllodd y PG&GC brosiect ar gyfer datblygu gwasanaeth rhanbarthol TCC ar gyfer Gogledd Cymru nad oedd yn ymddangos yn ymarferol bellach. Cefnogodd y Pwyllgor y penderfyniad i gadw'r ddarpariaeth TCC a’r ganolfan rheoli yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r trefniadau TCC cyfredol gan y Tîm TCC ac yn argymell y dylid ystyried sut y gallai trefi eraill yn Sir Ddinbych ddefnyddio'r gwasanaethau TCC yn y dyfodol.*
*(ii) Gofyn i’r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd anfon manylion lleoliadau troseddau a digwyddiadau sydd wedi'u recordio gan TCC; ac*
*(iii) Adroddiad diweddaru am y gwasanaeth TCC i’w gyflwyno yng Nghyfarfod Hydref 2013 gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.*

***[RhE i ddilyn i fyny yr uchod]***

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (wedi’i anfon yn flaenorol) yn gofyn i’r Aelodau adolygu rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor.

Hysbysodd y Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (CIM) y Pwyllgor bod risg newydd wedi dod i’r amlwg ers yr adolygiad diwethaf. Eglurodd y Swyddog Gwelliant Corfforaethol (CIO) bod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllun moderneiddio ysgolion. Y risg yw pe na bai’r gyllideb yn cyfateb â chynllun y prosiect. Hwn oedd Cyfnod 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a nodi’r rhaglenni gwaith i'r dyfodol*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.**